Bod Yn Wenynwr

Beth mae arnaf ei angen i ddechrau arni?

Ymuno â Chymdeithas Gwenynwyr

Cysylltwch ag ysgrifennydd eich cymdeithas leol – gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer Cymru yn www.wbka.com ac i Loegr yn www.bbka.org.uk. Mae sawl cymdeithas yn cynnal diwrnodau rhagarweiniol a chyrsiau i ddechreuwyr

Llyfr Cadw Gwenyn Sylfaenol

Ewch i fenthyg ambell i deitl gan eich cymdeithas neu lyfrgell gyhoeddus cyn penderfynu ar yr un gorau i chi.

Cwch Gwenyn ac Offer y Cwch

Mae sawl math o gychod gwenyn ar gael. Siaradwch gydag aelodau'ch cymdeithas gwenynwyr CYN prynu er mwyn cael cyngor ymarferol. Beth bynnag y dewiswch chi, mae'n haws os bydd gan bob un o'ch cychod yr un dyluniad. Gallwch brynu cychod gan adwerthwr 'mewn pecyn fflat' neu wedi'u rhoi at ei gilydd. Mae rhai ail-law ar gael ond ewch â gwenynwr profiadol gyda chi BOB TRO a pheidiwch byth â phrynu fframiau deori ail law. Llosgwch gyfarpar ail law i'w glanhau cyn ichi eu defnyddio. Dyma'r eitemau cyfarpar cwch gwenyn hanfodol yn ystod y tymor cyntaf:

- **Mygydd**: fe'i defnyddir i lonyddu'r gwenyn. Fel rheol, argymhellir blwch tanwydd mawr.
- **Arf Cwch Gwenyn**: Fe'i defnyddir i godi a chrafu fframiau'r cwch. Fel rheol, argymhellir math J.
- **Bwydwr**: fe'i defnyddir i fwydo surop i'r nythfeydd.

Dillad Amddiffynnol

Y peth mwyaf hanfodol a brynwch wrth ddechrau cadw gwenyn fydd eich dillad amddiffynnol. Os ydych chi'n hyderus yn eich dillad, byddwch chi'n well gwenynwr a byddwch yn mwynhau cadw gwenyn yn fwy. Bydd angen siwt gwenyn, fêl a menig arnoch. Dylai'r menig fod yn ddigon trwchus i'ch amddiffyn ac yn ddigon tenau i'ch galluogi i wneud eich gwaith cadw gwenyn. Dylai fod modd eu golchi neu eu taflu'n llwyr.

Sut mae cael gwenyn?

Nythfeydd cyflawn: mae hyn yn gofyn am rywfaint o sgil i'w rheoli yn y tymor cyntaf a gallant fod yn ddrud.

Nythfa niwclews: nythfa fach (4-5 ffrâm) yw hwn a fydd yn tyfu yn y flwyddyn gyntaf i faint llawn.

Haid: Am ddim ond mae angen rhywfaint o sgil i'w dal – yr amser gorau i'w cael yw mis Mai neu fis Mehefin.

Archwiliad Iechyd

Os prynwch nythfa niwclews neu gyflawn, cynghorir cael archwiliad o'r gwenyn i sicrhau eu bod yn rhydd o afiechydon. Gall unrhyw wenynwr ofyn i'r Uned Gwenyn Cenedlaethol am archwiliad rhad ac am ddim - bydd eich archwilydd gwenyn rhanbarthol yn rhoi cyngor ar hwsmonaeth a rheoli afiechydon i chi (gweler www.nationalbeeunit.com).

Ble gallaf gadw fy ngwenyn?

Gardd: Gall hyn fod yn bosibl mewn gardd fawr, ond meddyliwch sut mae'ch teulu (a'ch cymdogion) yn defnyddio'r ardd ac a fydd cadw gwenyn yn ymyrryd ar eu mwynhad ohoni.

Gwenynfa Allan: Bydd llawer o awdurdodau lleol, parciau, gwarchodfeydd natur a ffermwyr yn eich caniatáu i leoli'ch gwenyn mewn cornel dawel am rent bach, sef mêl fel arfer. Aseswch addasrwydd y safle bob amser. Ystyriwch:

- **Fynediad i gerbydau** – mae blwch o fframiau mêl yn drwm i'w cario.
- **Storio** - a fydd y tirfeddiannwr yn cynnig lle storio i chi neu a allwch godi sied.
- **Porthiant** - oes blodau addas yn yr ardal.
- **Dŵr** – os nad oes ar gael, darparwch gyflenwad addas
- **Diogelwch** – yn anffodus, mae nythfeydd gwenyn yn cael eu dwyn ledled y DU.
- **Ffensio addas** – gallai da byw rhwbio yn erbyn cwch gwenyn a'i wthio drosodd.

Pam ymuno am ymuno â chymdeithas gwenynwyr?

Byddwch yn gweld pobl gyfeillgar o'r un anian sy'n barod i gynnig cyngor, arweiniad a help i chi. Mae cymdeithasau'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i wenynwyr ar reoli heintiau a thechnegau hwsmonaeth, sy'n eu helpu i ofalu am eu gwenyn a'u rheoli i gael cnwd gwell a gwenyn iachach. Rydym yn cael llawer o hwyl, yn rhannu'n profiadau ac yn dysgu wrth ein gilydd hefyd!

Mae aelodaeth o gymdeithas yn cynnwys:

- Yswiriant (3ydd parti, atebolrwydd cyhoeddus ac afiechydon gwenyn)
- cylchgrawn Cymdeithas Gwenynwyr Cymru
- cyrsiau cadw gwenyn i ddechreuwyr a chyrsiau uwch
- Cyfarfodydd misol gyda sgyrsiau ac arddangosiadau.

Allai fod gan rai cymdeithasau wenynfa, llyfrgell, cylchlythyr a siop ar-lein hefyd i werthu mêl a chyfarpar, neu'n cynnal ffeiriau neu sioeau ar gyfer mêl a chynhyrchion eraill y cwch gwenyn.

Cymdeithas Gwenynwyr Llambed a'r Cylch
lampeterbeekeepersassociation.co.uk/cy

gyda diolch i
Gwenynwyr
Pen-y-Bont

BRIDGEND BEEKEEPERS
GWENYNWYR PEN-Y-BONT